

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gerallt Jones

Nos Lun Mai 13eg 2019 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts, Paul Weston, Cyng. Sirol Garffild Lewis.
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Edmund Rees ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Ebrill** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 5.1. 'Audit Walk' – penderfynwyd mynd o amgylch yr ardal ar nos Fawrth 21ain o Fai am 7.30 y.h. ac yna gwahodd aelod o Gyngor Conwy i'r cyfarfod nesaf.
6. **Gohebiaeth:**
 - 6.1. Cymunedau Taclus Conwy Wledig – wedi llwyddo gyda'r Cais am grant o £500.00. Penderfynwyd archebu 3 hanner casgen newydd yn lle'r rhai sy yna'n barod a 2 gafn pren newydd a'i gosod wrth arwyddion Pentrefoelas bob ochr i'r pentref ar yr A5.
 - 6.2. CBSC – wedi derbyn taliad cyntaf o'r presept £1367.00.
7. **Monitro'r Gyllideb**

Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
8. **Talu Anfonebau:**
 - 8.1. Hill & Roberts – cynigiodd Alun Owen gyda Gari Jones yn eilio ein bod yn talu'r anfoneb o £105.00 + TAW £21.00 = **£126.00** gyda siec rhif **100323**. (S151)
9. **Un Llais Cymru:**

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod ym Mhentrefoelas gan ein cynrychiolydd Edmund Rees – *Anerchiad gan Swyddog Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych, Pwyslais ar roi cymorth i'r rhai sydd yn byw efo dementia sydd yn rhan o'r rhaglen ar hyn o bryd. Derbyniwyd y newyddion fod cytundeb BDO efo Comisiwn Audit Cymru yn dod i ben 2020 gyda llawenydd. Darllenwyd adroddiad o'r Pwyllgor Cenedlaethol. Trafodaeth at gael siaradwr i'r pwyllgor nesaf.*
10. **Cais am Arian:**

Derbyniwyd Cais am gyfraniad gan yr ysgol Gynradd leol i fynd a 23 o ddisgyblion i Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd. Cynigiodd Dewi Evans gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn anfon **£230.00** iddynt sef **£10.00** y pen yn daladwy gyda siec rhif **100324**. (S133)
11. **Gair gan y Cyng. Sirol Garffild Lewis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
12. **Unrhyw fater arall:**
 - 12.1. Angen tocio coed wrth groesffordd Capel Rhydlydan ac wrth Llwyn Onn 13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 3ydd 2019 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd

Cadeirydd

Dyddiad

